O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 2955 (Cy. 293)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Yr A477 (Cylchfan Cilgetti i Gyffordd Hen Ffordd Amroth, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Tachwedd 2013* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd Sanclêr— Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984)**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2) y**n gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2013. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Cilgeti i Gyffordd Hen Ffordd Amroth, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd"(*"the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd, yn Sir Benfro, a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd, na chaniatáu i unrhyw gerbyd ac eithrio cerbyd esempt, i adael y gefnffordd drwy droi i'r dde ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd, na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, i adael y gefnffordd drwy droi i'r chwith ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau hynny o'r gefnffordd a nodir yn Atodlen 1 yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 mewn grym.

### Atal

**8.** Atelir drwy hyn ddarpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cilgeti, Dyfed) (Dileu Cyfyngiad) 1991**(3)** mewn perthynas â'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 ar waith.

### Cymhwyso

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 21 Tachwedd 2013

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1991/1092

## ATODLEN 1

## HYD A LLED Y CYFYNGIADAU CYFLYMDER 40 MYA A 10MYA A GWAHARDD GODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchol Cylchfan Cilgeti at bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Hen Ffordd Amroth (yr C3185).

## ATODLEN 2

## HYD A LLED GWAHARDDIAD DROS DRO AR DROI I'R DDE

i) O gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd ar draws y gerbytffordd tua’r dwyrain i mewn i'r C3185 i Gilgeti.

ii) O gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd ar draws y gerbytffordd tua'r gorllewin i mewn i'r C3185 i Stepaside.

## ATODLEN 3

## HYD A LLED GWAHARDDIAD DROS DRO AR DROI I'R CHWITH

O gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i mewn i'r C3185 i Stepaside.